**Adroddiad ar**

**Cylch Meithrin Rhoscolyn**

**Ysgol Santes Gwenfaen**
**Rhoscolyn**
**Ynys Môn,**
**LL65 2DX**

**Dyddiad yr arolygiad:  Chwefror 2023**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Cylch Meithrin Rhoscolyn

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Rhoscolyn |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Sara Roberts |
| Person â gofal | Heledd Huws |
| Nifer y lleoedd | 24 |
| Amrediad oedran y plant | 2-4 mlwydd oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 2 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 2 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i ddydd Gwener 9:00 y.b. – 3:00 y.h. |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu'r 'Cynnig Gweithredol' y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol y plant sy'n defnyddio, neu a allai ddefnyddio'r gwasanaeth. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Hwn yw'r arolygiad cyntaf ers cofrestriad y lleoliad yn 2020. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Mai 2018 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 13/02/2023 |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolwg yma.

## Argymhellion

A1 Darparu cyfleoedd buddiol i blant ddatblygu eu medrau Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu.

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles:**

Mae bron bob plentyn yn hapus ac yn fodlon yn y lleoliad. Maent yn ymdopi'n dda wrth adael eu rhieni ac yn awyddus i ymuno'n syth i chwarae gyda'i ffrindiau wrth gyrraedd. Mae bron bob plentyn yn hyderus wrth wneud penderfyniadau a dewis sut maent yn treulio eu hamser. Mae'r gweithgareddau a theganau yn cael eu trefnu'n effeithiol a'u cadw ar lefel isel, sy'n galluogi'r plant i ddilyn eu diddordebau ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau wedi'u cynllunio yn eu hamser eu hunain. Mae'r holl blant yn symud o gwmpas yr ystod eang o weithgareddau yn rhwydd, gan ddangos parch at yr offer.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn mynegi eu hunain yn hyderus. Maent yn rhannu syniadau ac ateb cwestiynau syml yn llwyddiannus. Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwybod y bydd eu barn yn cael ei pharchu gan ymarferwyr. Er enghraifft, wrth ddangos lluniau a rhannu straeon o lyfrau sydd wedi ennyn eu diddordeb, mae'r plant yn gwenu pan mae'r ymarferwyr yn rhyfeddu ar beth sydd ganddynt i'w ddweud. Mae bron bob plentyn yn gyfarwydd â'r drefn ddyddiol ac mae ganddynt berthynas bositif gyda'r ymarferwyr, sy'n creu sicrwydd iddynt.

Mae'r rhan fwyaf o blant wedi cychwyn gwneud ffrindiau. Maent yn rhyngweithio'n dda â'u cyfoedion ac yn mwynhau chwarae a chwblhau tasgau gyda'i gilydd. Er enghraifft, wrth edrych am frigau a mwsog yn yr ardal goedwigaidd, gan ddangos brigau i'w ffrindiau a helpu ei gilydd i roi'r brigau yn y fasged. Mae'r rhan fwyaf o blant yn hapus i rannu adnoddau gyda'u ffrindiau ac yn dysgu medrau cymdeithasol pwysig yn dda, fel cymryd eu tro. Er enghraifft, wrth chwarae gyda thywod maent yn hapus i gymryd eu tro i ddefnyddio'r offer a'r cerbydau gwahanol ac maent yn trafod a sgwrsio'n frwdfrydig wrth chwarae.

Mae bron bob plentyn yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu. Maent yn canolbwyntio a dyfalbarhau'n dda wrth fynd i'r afael â thasgau ac maent yn mwynhau arbrofi gydag offer a deunyddiau gwahanol. Er enghraifft, cawsant lawer o hwyl wrth arborfi gyda perlysiau a bagiau te gwahanol mewn dŵr i greu te arbennig i'r ymarferwyr. Mae bron bob plentyn yn chwilfrydig am y byd o'u cwmpas ac yn mwynhau chwarae a defnyddio eu dychymyg, fel chwarae'n ddychmygol yn yr ardal chwarae rôl a'r ardal byd bach.

Mae bron bob plentyn yn dewis gweithgareddau'n annibynnol a dilyn eu diddordebau yn effeithiol. Mae'r rhan fwyaf yn datblygu medrau annibynnol da, er enghraifft wrth iddynt lenwi jygiau gyda dŵr gan agor a chau'r tap yn annibynnol a dangos gofal wrth gario'r jwg draw i'r cafn ddŵr. Yn ogystal, yn ystod amser byrbryd, mae bron bob plentyn yn awyddus i olchi eu dwylo ac arllwys eu diod yn annibynnol.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Nid oes adroddiad ar ddysgu'r plant. Y rheswm am hyn yw nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol adeg yr arolygiad nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir yn rhywle arall i allu adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

## Gofal a datblygiad:

Mae'r ymarferwyr yn blaenoriaethu diogelwch plant. Maent yn rhoi gweithdrefnau effeithiol ar waith er mwyn sicrhau bod plant yn iach a diogel. Mae pob un ohonynt wedi cael hyfforddiant amddiffyn plant perthnasol ac maent yn gyfarwydd â'r gweithdrefnau i'w dilyn os oes ganddynt unrhyw bryderon am blentyn. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Yn ogystal, mae pob un o'r ymarferwyr wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf pediatreg, sy'n eu paratoi i roi triniaeth briodol, pe byddai angen. Mae ymarferion tân yn cael eu cwblhau'n rheolaidd ac maent yn cael eu cofnodi'n effeithiol.

Gwneir defnydd da o weithdrefnau cyfredol er mwyn atal lledaenu haint. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr yn annog y plant i olchi eu dwylo ar ôl defnyddio'r toiled a chyn bwyta byrbryd, ac maent yn sicrhau bod y byrddau'n cael eu glanhau gyda hylif diheintio cyn i'r plant eistedd i fwyta. Maent hefyd yn dilyn gweithdrefnau addas wrth newid clytiau a thrin bwyd. Mae ymarferwyr yn hyrwyddo ymarfer corff yn llwyddiannus. Maent yn sicrhau bod cyfleoedd buddiol i blant ddatblygu eu medrau corfforol a threulio amser tu allan yn yr awyr iach.

Mae'r ymarferwyr wedi ffurfio perthnasoedd cadarnhaol gyda'r plant ac maent yn siarad gyda nhw yn annwyl a'u trin gyda gofal a pharch. Maent yn defnyddio strategaethau effeithiol a chyson i hybu ymddygiad cadarnhaol yn unol â pholisi'r lleoliad. Er enghraifft, maent yn denu sylw plant at weithgaredd arall os ydynt yn cael trafferthion wrth rannu neu gymryd tro ac yn cynnig esboniad clir pan nad yw eu hymddygiad yn dderbyniol. Mae'r holl ymarferwyr yn modelu medrau cymdeithasol yn effeithiol trwy chwarae wrth ochr y plant gan eu hannog i ddweud diolch a chanmol ei gilydd yn ystod y gweithgareddau.

Mae gan y lleoliad drefniadau pwrpasol er mwyn adnabod a chefnogi anghenion unigol plant, gan gynnwys plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r ymarferwyr yn casglu digon o wybodaeth am hoffterau, anghenion ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall cyn i'r plant gychwyn yn y lleoliad. Mae hyn yn galluogi'r ymarferwyr i gynllunio'n effeithiol. Mae gweithdrefnau effeithiol ar waith i gyfeirio plant yn amserol am gymorth gan asiantaethau allanol os oes angen. O ganlyniad, mae gweithdrefnau cadarn yn eu lle i sicrhau bod anghenion bob plentyn yn cael eu diwallu'n effeithiol.

Mae'r ymarferwyr yn olrhain cynnydd y plant yn effeithiol drwy gynnal arsylwadau ac asesiadau rheolaidd. Yn ogystal, maent yn creu llyfrau pwrpasol i rannu gyda rhieni a gofalwyr ar ddiwedd pob blwyddyn, sy'n cynnwys ffotograffau o'r plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau a nifer o'u llwyddiannau. Maent yn sicrhau bod rhieni'n cael gwybodaeth gyson am ddatblygiad eu plant trwy ddefnyddio ap diogel ar-lein i rannu ffotograffau ac arsylwadau. Yn ogystal, mae'r rhieni'n medru rhannu arsylwadau a gyrru negeseuon mewn ymateb, sy'n creu cysylltiad agos rhwng y rhieni a'r lleoliad.

## Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):

Mae'r ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol iawn ac yn myfyrio ar ac addasu eu harfer mewn perthynas ag egwyddorion Cwricwlwm i Gymru er mwyn darparu cyfleoedd buddiol ac amrywiol i'r plant. Trwy ymateb i ddiddordebau'r plant, maent yn cynllunio

ystod eang o brofiadau dysgu a chwarae gwerthfawr tu fewn a thu allan i'r adeilad sy'n ennyn diddordeb pob plentyn yn bwrpasol. Enghraifft nodedig o hyn yw'r cyfle i ddatrys problemau a datblygu medrau creadigol wrth chwilio, dewis a chyfuno adnoddau naturiol megis brigau, dail a mwswgl i greu nyth i Titw Tomos Las.

Mae gan yr ymarferwyr berthynas hyfryd â'r plant. Maent yn eu goruchwylio'n effeithiol ac yn ymwybodol o bryd i ymuno yn y chwarae a manteisio ar unrhyw gyfleoedd i fodelu'r dysgu. Mae ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau arsylwi i asesu datblygiad y plant yn effeithiol gan addasu'r ddarpariaeth yn briodol yn sgil yr wybodaeth a gasglwyd. Maent yn holi cwestiynau agored a pherthnasol sy'n annog y plant i feddwl a darganfod drostynt eu hunain. Er enghraifft, maent yn holi'r plant sut byddent yn cludo dŵr o un lle i le arall, pa sŵn mae anifeiliaid yn wneud neu pa greaduriaid sydd yn byw o dan ddarn o bren sy'n pydru.

Mae'r holl ymarferwyr yn modelu iaith lafar yn effeithiol iawn gan gyflwyno patrymau iaith, geirfa ac ymadroddion, a chanu bywiog. Maent yn cymell y plant yn briodol i greu marciau gydag amrywiaeth o gyfryngau a'u hannog yn gyson i ddefnyddio'u medrau rhifedd, er enghraifft, wrth gyfri, cyfatebu a chymharu ceir yn ôl maint. Fodd bynnag, prin yw'r cyfleoedd i blant ddatblygu eu medrau Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu trwy eu dysgu a'u chwarae.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio'n ddoeth i ddatblygu medrau corfforol a chreadigol y plant. Er enghraifft, maent yn eu hannog i berfformio ystumiau priodol wrth ganu, i ddawnsio ac i fentro ac arbrofi defnyddio a symud gyda hwpiau mewn amrywiaeth o ffurf. Mae'r llu o weithgareddau awyr agored yn annog plant i fentro, dod yn archwilwyr hyderus o'u hamgylchedd ac i ddangos gofal a pharch at bethau byw. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn annog y plant i ofalu am drychfilod a ddarganfuwyd dan hen foncyff er mwyn eu cadw'n ddiogel. Mae'r ymarferwyr yn darparu gwybodaeth briodol am gyflawniadau eu plant i rieni a gofalwyr dros gyfryngau cymdeithasol ac ar lafar wrth ddrws y lleoliad.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio profiadau buddiol i ddatblygu medrau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant. Maent yn darparu cyfleoedd diddorol sy'n cymell plant i ddangos diddordeb am fywydau pobl eraill ar draws y byd. Er enghraifft, wrth greu marciau i efelychu ysgrifen a blasu bwyd Tsieineaidd wrth drafod y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd. Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o ddiwylliant Cymru yn dda trwy ddathlu Dydd Miwsig Cymru, Dydd Mr Urdd a'r Eisteddfod Ysgol ac yn gwneud defnydd priodol o'r gymuned. Er enghraifft, wrth ymweld â fferm leol i arsylwi anifeiliaid y fferm a chasglu pwmpen i'w gerfio er mwyn dathlu nos Galan.

**Yr amgylchedd:**

Mae arweinwyr yn blaenoriaethu diogelwch plant drwy ddarparu gweithdrefnau sy'n sicrhau bod unrhyw beryglon posib yn cael eu monitro a'u rheoli'n effeithiol. Mae asesiadau risg trylwyr yn amlinellu peryglon posib a'r camau sydd wedi eu cymryd i leihau neu atal y risg i blant. Mae gwiriadau o'r ardaloedd chwarae a'r offer yn cael eu cwblhau'n ddyddiol er mwyn sicrhau nad oes unrhyw beryglon yn bresennol a bod offer yn addas ar gyfer y plant. Pan mae unrhyw beryglon yn cael eu canfod, mae ymarferwyr yn delio gyda'r rhain yn gyflym ac yn effeithiol.

Mae'r ardaloedd chwarae yn braf, gyfforddus a chysurus ac mae digon o le i blant symud o gwmpas yn rhwydd. Mae arweinwyr yn sicrhau bod plant yn cael synnwyr o

berthyn drwy arddangos esiamplau o waith y plant a ffotograffau ar y waliau. Mae’r ystafell chwarae wedi ei threfnu i ardaloedd dysgu pwrpasol gydag amrywiaeth o ddeunyddiau ac adnoddau naturiol sy’n cyfoethogi profiadau’r plant. Er enghraifft, mae llestri te go iawn a phlanhigion byw yn yr ardal chwarae rôl. Mae arweinwyr yn rhoi pwyslais ar ddefnyddio lliwiau naturiol, sy’n creu awyrgylch tawel a heddychlon ac yn helpu’r plant i fedru ymgolli yn eu chwarae. Mae’r ardal chwarae tu allan wedi cael ei datblygu i gynnig amrywiaeth o weithgareddau a chyfleodd pwrpasol i blant chwarae a datblygu ymwybyddiaeth o’r byd o’u cwmpas. Er enghraifft, cegin fwd, hambyrddau’n llawn perlysiau, dŵr a bagiau te ac ardal adeiladu yn cynnwys cerrig bach a phlanciau pren. Mae arweinwyr hefyd yn cydweithio’n effeithiol gyda’r ysgol gynradd gyfagos er mwyn sicrhau bod plant yn cael mynediad i ystod o ardaloedd coedwigaidd a chaeau.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod ystod eang o adnoddau ac offer diddorol a chyffrous ar gael yn yr ystafell chwarae. Mae’r rhain o ansawdd da ac yn cael eu storio ar lefel isel er mwyn galluogi’r plant i ddewis yn annibynnol heb ymyrraeth oedolyn. Mae ymarferwyr yn cadw cofnod trylwyr o ba bryd mae’r ardaloedd chwarae, teganau ac adnoddau’n cael eu glanhau. Mae hyn yn digwydd yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod yr adnoddau’n lân ac mewn cyflwr da. Mae arweinwyr yn sicrhau bod offer ac adnoddau yn hybu annibynniaeth y plant, er enghraifft, drwy sicrhau bod adnoddau ar gael i helpu’r plant i ddysgu defnyddio’r toiled yn annibynnol. Mae dewis o adnoddau ar gael er mwyn hybu ymwybyddiaeth y plant o ddiwylliannau gwahanol gan gynnwys amrywiaeth dda o llyfrau. Mae hyn yn helpu’r plant ddysgu i fod yn ddinasyddion goddefgar ac i ddeall gwahaniaethau yn y byd o’u cwmpas.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth:**

Mae gan y person â gofal, yr unigolyn cyfrifol a’r pwyllgor rheoli sefydlog weledigaeth glir sy’n llywio cyfeiriad pwrpasol i weithdrefnau’r lleoliad. Mae’r weledigaeth yn seiliedig ar sicrhau darparu gwasanaeth o safon uchel o ran lles, gofal a dysgu’r plant o fewn awyrgylch ysgogol a hapus. O ganlyniad, mae’r arferion cyson a pholisïau’r lleoliad yn canolbwyntio’n gadarnhaol ar fodloni anghenion y plant trwy addysgu bwriadus a chefnogaeth frwd.

Mae diwylliant cadarnhaol o hunanwerthuso yn bodoli, gyda’r lleoliad yn sicrhau ystyriaeth lawn i farnau pawb sy’n ymwneud â’r lleoliad gan gynnal trafodaethau rheolaidd gyda’r rhieni, yr awdurdod lleol a mudiadau cefnogol. O ganlyniad, mae’r gweithdrefnau yn effeithio’n gadarnhaol ar wella’r agweddau sydd angen eu datblygu. Er enghraifft, maent wedi datblygu’r arferion arsylwi ac asesu er mwyn adnabod llwyddiannau a chamau nesaf yn natblygiad plant yn well, a gwneud defnydd pwrpasol o gyfryngau cymdeithasol i rannu gwybodaeth am weithgareddau’r plant gyda’u rhieni a gofalwyr.

Mae gan arweinwyr drefniadau priodol i fonitro gwaith y lleoliad. Maent yn dilysu penderfyniadau’r unigolyn cyfrifol a’r person â gofal yn rheolaidd i adnabod cryfderau a materion i’w gwella. Mae’r gweithdrefnau hyn yn sicrhau targedau dibynadwy yn y cynllun datblygu fel hyfforddiant perthnasol i’r ymarferwyr i fodloni anghenion y plant yn fwriadus. Mae’r lleoliad yn cydymffurfio a rheoliadau gwarchod plant a gofal dydd ac yn bodloni’r safonau gofynnol cenedlaethol.

Mae arweinwyr yn gwneud defnydd doeth o gyllid i gefnogi gosod blaenoriaethau gwella a diwallu anghenion plant. Er enghraifft, yn ddiweddar, trwy gyllido

gwelliannau yn yr ardal allanol megis canopi, a darparu adnoddau deniadol sy'n cefnogi dysgu'r plant ac yn cyfoethogi eu profiadau'n dda.

Mae arweinwyr yn gweithredu sustemau recriwtio diogel ac mae ganddynt drefniadau da i werthuso perfformiad ymarferwyr. Maent yn goruchwylio a gwerthuso eu gwaith yn rheolaidd ac yn sicrhau cyfleoedd i fynychu hyfforddiant er mwyn diwallu anghenion unigol y plant. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr i gyd wedi mynychu hyfforddiant arbennigol i gynorthwyo plant ag anawsterau cyfathrebu. O ganlyniad, mae'r ymarferwyr yn hyderus ac yn gymwys i gyflawni eu rolau'n effeithiol.

Mae'r lleoliad wedi sefydlu partneriaethau buddiol gyda'r rhieni, gofalwyr a'r gymuned, ac mae partneriaeth lwyddiannus yn bodoli rhwng yr ysgol a'r lleoliad, i rannu arbenigedd a'r safle yn ddeallus. O ganlyniad, mae trefniadau da ar waith i sicrhau bod y plant yn trosglwyddo i'r cam nesaf yn eu haddysg yn ddidrafferth.

## Copïau o’r adroddiad

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 19/04/2023

| | | |
|---|---|---|
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella / Meysydd I'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  19/04/2023

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad Cyhoeddi** 19/04/2023

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.